# Dangoswch eich cefnogaeth

**#SaferInternetDay #AnInternetWeTrust**

Mae Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn gyfle gwych i gael gwybod y diweddaraf am fywydau pobl ifanc ar-lein a bod yn rhan o sgwrs ehangach am gadw'n ddiogel ar-lein. Yma, mae gwahanol ffyrdd y gallwch chi gefnogi thema'r diwrnod eleni, '**Rhyngrwyd Ddibynadwy: beth sy'n ddibynadwy yn y byd ar-lein.**'

Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y llynedd oedd y gorau eto. Llwyddodd i gyrraedd at fwy o bobl ifanc, rhieni, gofalwyr ac athrawon nag erioed o'r blaen! Helpwch UK Safer Internet Centre i gyrraedd hyd yn oed mwy o bobl eleni.


Mae nifer o ffyrdd y gallwch chi a'ch teulu gymryd rhan yn y diwrnod a lledaenu'r gair ynghylch gwneud y rhyngrwyd yn rhywle diogel a chadarnhaol.

## Cymryd rhan

Mae dros 170 o wledydd ar draws y byd yn dathlu Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel. Byddwch yn rhan o'r sgwrs fyd-eang drwy ddefnyddio eich cyfryngau cymdeithasol i helpu i hyrwyddo'r pethau anhygoel sy'n digwydd.

Defnyddiwch yr hashnodau hyn i helpu i ledaenu'r neges ar-lein.

**#SaferInternetDay**
**#AnInternetWeTrust**



Bydd UK Safer Internet Centre yn postio llawer o gyngor am ddiogelwch ar-lein yn ystod y cyfnod cyn y diwrnod mawr ac ar y diwrnod ei hun. Byddwn yn rhannu nifer o negeseuon a chyngor gan eraill sy'n dathlu'r diwrnod ledled y DU.
Dilynwch ni, neu rhowch wybod i ni sut rydych chi'n dathlu'r diwrnod, gan ddefnyddio ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol:

**Instagram:** @UK_SIC
**Twitter:** @UK_SIC
**Facebook:** saferinternetuk
**YouTube:** UKSIC

Dyma enghreifftiau o negeseuon y gallwch eu rhannu:

> Rydw i'n cefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2021. Mae gan @UK_SIC gyngor i rieni am gadw plant yn ddiogel ar-lein. Gwybodaeth: www.saferinternetday.org.uk #SaferInternetDay @UK_SIC #AnInternetWeTrust

> Rydw i'n dathlu Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel ar 9 Chwefror #SaferInternetDay Mae mwy o wybodaeth am sut mae cadw'n ddiogel ar-lein ar gael yn: www.saferinternetday.org.uk @UK_SIC #AnInternetWeTrust

> Mae Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn ffordd wych o ddechrau siarad am ddiogelwch ar-lein â phlant #SaferInternetDay Dyna pam rwy'n ymuno â'r ymgyrch! www.saferinternetday.org.uk @UK_SIC #AnInternetWeTrust

## Cynnwys pobl eraill

**Anogwch** ysgol eich plentyn i gofrestru i gefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn saferinternetday.org.uk a llwytho ein Pecynnau Addysg i lawr hefyd.

**Cofrestrwch** eich gweithle neu grŵp cymunedol yn un o gefnogwyr Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn saferinternetday.org.uk er mwyn cael gafael ar ddeunyddiau hyrwyddo i helpu i rannu'r hyn rydych chi'n ei wneud i gefnogi'r diwrnod.

**Siaradwch** â'r bobl agosaf atoch chi. Mae croeso i bob nain, taid, ewythr, modryb a ffrind gymryd rhan a rhannu syniadau ynghylch gwneud y rhyngrwyd yn lle sy'n fwy diogel!

## Unrhyw gwestiynau?

Mae mwy o wybodaeth am Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ledled y DU i ddathlu'r diwrnod ar gael yn saferinternetday.org.uk

Anfonwch e-bost atom: SID@saferinternet.org.uk

Cofrestrwch i gael ein cylchlythyr am ddim bob mis: bit.ly/UKSICNewsletter